10.05.2022

# Neuadd Bentref - Rhiwlas - Village Hall

Rhif elusen cofrestredig 509488

**Amodau Llogi a Defnyddio'r Neuadd**

1. Pan yn cyrraedd yr adeilad rhaid i'r llogwr nodi safleoedd y larymau, diffoddwyr ac allanfeydd tân. Dylid cadw'r allanfeydd tân yn glir pob amser.
2. Ni chaniateir ysmygu yn yr adeilad. Cyfrifoldeb y llogwr yw sicrhau bod pawb yn cadw at y rheol hon.
3. Ni chaniateir diodydd alcohol o unrhyw fath yn y Neuadd heb ganiatad y Pwyllgor Rheoli.
4. Pan yn llogi'r Neuadd dylech sicrhau bod amser gennych i baratoi a chlirio'r adeilad.
5. Rhaid i'r sawl sy'n trefnu llogi'r Neuadd fod dros 18 oed.
6. Os trefnir gweithgareddau gyda phlant, mae angen sicrhau digon o oedolion er mwyn eu goruchwylio.
7. Mae angen caniatad y Pwyllgor Rheoli os oes bwriad i osod offer fel 'casell neidio' yn y Neuadd.
8. Y llogwr sy'n gyfrifol am gyflenwi sachau sbwriel, cadachau golchi a sychu llestri.
9. Y llogwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddodrefn ac unrhyw offer arall a ddefnyddir yn cael eu cadw yn eu llefydd priodol.
10. Nid yw'r Pwyllgor Rheoli yn cymryd dim cyfrifoldeb am offer na nwyddau personol sydd yn cael eu gadael yn y Neuadd.
11. Dylid cymryd gofal arbennig o'r llawr. Dylai dodrefn ac offer trymion gael eu cario ac nid eu llusgo dros y llawr. Os collir hylif o unrhyw fath ar y llawr dylid sicrhau ei fod yn cael ei sychu ar unwaith.
12. Rhaid ysgubo'r lloriau'n lân a rhoi pob sbwriel yn y biniau priodol ar ddiwedd pob sesiwn a sicrhau bod y gegin a'r llestri'n lân os defnyddir nhw.
13. Dylid gadael yr holl gyfleuterau'n lân ac yn eu cyflwr gwreiddiol. Bydd y llogwr/llogwyr yn gyfrifol am ad-dalu unrhyw ddifrod a achosir.
14. Dylid hysbysu'r Pwyllgor Rheoli ynglŷn ag unrhyw ddifrod neu ddiffyg i unrhyw offer.
15. Dylid hysbysu'r Pwyllgor Rheoli os digwydd damwain yn y Neuadd.

**Eithriadau ac addasiadau i'r Amodau**

Mae gan Bwyllgor Rheoli'r Neuadd hawl i wneud eithriadau i unrhyw ran o'r rheolau hyn ac i addasu'r Rheolau ac Amodau o bryd i'w gilydd.